COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 131

Amseru: Brys

Teitl: Estyn cytundeb Goleudy

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu

Crynodeb Gweithredol: Ym mis Ebrill 2017, daeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â'r gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr yn fewnol, gan wobrwyo cytundeb i Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer darparu'r gwasanaeth (cofnod penderfyniad DLI013). Parodd y cytundeb hwn 3 blynedd i gychwyn, gyda 2 ddewis l'w estyn am 12 mis yr un. Ers hynny, mae'r gwasanaeth wedi'i uchafu drwy ddarparu gwasanaethau ychwanegol ar gyfer cefnogi, cyfeirio a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Argymhellir bod y CHTh yn galw ar y cyfnod estyniad cyntaf ar gyfer y gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr, gan ddod â'r dyddiad gorffen yn unol â'r cytundeb cysylltiedig ar gyfer cymorth ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau ychwanegol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, fel y cofnodwyd yng nghofnod penderfyniad DLI085, gydag arian ychwanegol yn cael ei roi. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer amddiffyn y gwasanaeth i ddioddefwyr i mewn i'r tymor CHTh newydd, sy'n cychwyn ym mis Mai 2020, pan fydd adolygiad o bosibl yn cael ei gynnal er mwyn rhoi nifer o ddewisiadau i'r CHTh ar gyfer y model dewisol ar gyfer parhau â'r gwasanaethau hyn. Mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ddyletswydd statudol i weithredu fel llais dioddefwyr, ac mae'r Weinyddiaeth Gyflawnder yn rhoi arian iddynt er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau i helpu dioddefwyr i ymdopi â'r troseddau maen nhw wedi profi a dod dros y profiad. Bydd y telerau a'r amodau sy'n berthnasol yn ystod cyfnod yr estyniad yr un fath â'r rhai sydd mewn grym ar gyfer y cytundeb cyfredol. Fodd bynnag, mae nifer o bryderon y mae'r Comisiynydd yn disgwyl y byddant yn cael eu datrys fel amod o'r estyniad. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth fframwaith rheoli perfformiad cadarn er mwyn rhoi tystiolaeth o faint ac ansawdd cyflenwi gwasanaeth, ynghyd â datrysiad ar gyfer yr her bresennol o gael a chofnodi caniatâd priodol er mwyn caniatáu i wasanaeth Goleudy, ynghyd â'r gwasanaeth hynny sydd wedi'u comisiynu y gallai Goleudy gyfeirio atynt er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pob dioddefydd, gysylltu â dioddefwyr yn amserol a phriodol.

Argymhelliad:
Bod CHTh yn cymeradwyo estyn cyfnod y trefniant yn ôl y galw ar gyfer cytundeb Goleudy 12 mis arall tan 31/3/2021.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Hurl **Dyddiad:** 4/9/2019